Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Canllaw

Darparwyr gwasanaeth ar wahân ac un rhyw: canllaw ar eithriadau rhyw ac ailbennu rhywedd y Ddeddf Cydraddoldeb

Ebrill 2022

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

equalityhumanrights.com

Cynnwys

Cyflwyniad i'r canllaw hwn 2

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn 2

Beth mae'r canllaw hwn yn ei gwmpasu 2

Yr iaith a ddefnyddiwn yn y canllaw hwn 3

Crynodeb 4

Beth mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei ddweud am nodweddion gwarchodedig rhyw ac ailbennu rhywedd 5

Pryd y gallwch ddarparu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw 7

Gwasanaethau rhyw ar wahân 7

Gwasanaethau un rhyw 8

Unwaith eto, mae cymesuredd yn mynnu eich bod yn cydbwyso'r effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth o ddarparu gwasanaethau i un rhyw yn unig. 8

Pwyntiau i'w hystyried 9

Os mai dyma'r rheswm dros eich penderfyniad, byddai'n arfer da ategu hyn gyda thystiolaeth, fel arolwg cleifion. 9

Darpariaethau ailbennu rhywedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb (Atodlen 3, paragraff. 28) 10

Darparwyr gwasanaeth ar wahân ac un rhyw: gwneud penderfyniadau 11

Gwasanaethau ar wahân neu un rhyw: camau ymarferol y gallwch eu cymryd 13

Cysylltiadau 16

EASS 16

Cyflwyniad i'r canllaw hwn

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer darparwyr gwasanaeth (unrhyw un sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd) sy'n dymuno sefydlu a gweithredu gwasanaeth un rhyw neu ar wahân.

Darparwyr gwasanaeth ar wahân neu un rhyw yw'r rhai sy'n darparu gwasanaeth lle mae rhyw elfen neu'r cyfan o'r gwasanaeth ar gael:

- dim ond i un rhyw, neu
- ar wahân i bob rhyw, neu
- yn wahanol i bobl o bob rhyw.

Gallai'r rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- toiledau ar wahân neu un rhyw
- llochesi trais domestig
- ystafelloedd newid ar wahân neu un rhyw
- wardiau ysbyty

Rydym yn cyfeirio at y gwasanaethau hyn fel gwasanaethau ar wahân neu un rhyw drwyddi draw.

Beth mae'r canllaw hwn yn ei gwmpasu

Fel rheoleiddiwr y Ddeddf Cydraddoldeb, rydym yn darparu arweiniad ar y gyfraith i helpu sefydliadau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â'r eithriadau yn y Ddeddf Cydraddoldeb sy'n ymwneud â rhyw sy'n caniatáu darparu gwasanaethau, neu bolisi i'w gymhwyso:

- i un rhyw yn unig
- ar wahân i bobl o bob rhyw
- yn wahanol i bobl o bob rhyw

Mae hefyd yn cwmpasu'r darpariaethau yn y Ddeddf Cydraddoldeb sy'n ymwneud ag ailbennu rhywedd sy'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau ar wahân neu un rhyw eithrio, addasu neu gyfyngu ar fynediad i bobl draws.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am:

- yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud
- sut i benderfynu pryd i ddefnyddio'r eithriadau
- camau ymarferol y gallwch eu cymryd.

Yr iaith a ddefnyddiwn yn y canllaw hwn

Rydym wedi defnyddio Saesneg clir i helpu i egluro termau cyfreithiol.

Nid yw hyn yn newid ystyr y gyfraith.

Mae'r Ddeddf yn defnyddio'r term 'trawsrywiol' ar gyfer unigolion sydd â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Rydym yn cydnabod bod rhai pobl yn ystyried bod y term hwn yn hen ffasiwn, felly yn y canllaw hwn rydym yn defnyddio'r term 'traws' i gyfeirio at berson sydd â'r nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd.

Rydym yn defnyddio'r term 'rhyw biolegol' oherwydd mai dyma sut y diffinir rhyw gyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb i bobl sydd heb Dystysgrif Cydnabod Rhywedd.

Rydym yn defnyddio'r term gwasanaethau ar wahân neu un rhyw i ddisgrifio'r rhai sy'n darparu gwasanaeth lle mae rhywfaint, neu'r cyfan o'r gwasanaeth ar gael:

- dim ond i un rhyw
- ar wahân i bob rhyw
- yn wahanol i bobl o bob rhyw.

Crynodeb

- Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu ar gyfer darparu gwasanaethau rhyw ar wahân neu un rhyw dan rai amgylchiadau o dan 'eithriadau' yn ymwneud â rhyw.

- Er mwyn sefydlu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn bodloni o leiaf un o nifer o amodau statudol (a nodir yn yr adran hon o'r canllaw) **a** bod cyfyngu'r gwasanaeth ar sail rhyw yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Er enghraifft, gallai nod cyfreithlon fod am resymau preifatrwydd, gwedduster, atal trawma neu sicrhau iechyd a diogelwch. Mae'n rhaid i chi wedyn gallu dangos bod eich gweithred yn ffordd gymesur o gyrraedd y nod hwnnw.

- Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn datgan bod yn rhaid i chi ym mhob achos ddangos bod darparu'r gwasanaeth yn wahanol ar sail rhyw yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

- Mae amgylchiadau lle gall darparwr gwasanaeth ar wahân neu un rhyw sydd wedi'i sefydlu'n gyfreithlon wahardd, cyfyngu neu addasu mynediad pobl draws at y gwasanaeth. Caniateir hyn o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, gallai cyfyngu ar fynediad i neu addasu mynediad at, neu eithrio person traws o wasanaeth ar wahân neu un rhyw y rhywedd y maent yn bresennol ynddo fod yn anghyfreithlon os na allwch ddangos bod gweithredu o'r fath yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Mae hyn yn berthnasol p'un a oes gan y person Dystysgrif Cydnabod Rhywedd ai peidio.

- Wrth ystyried sut y darperir eich gwasanaeth i bobl draws, mae'n rhaid i chi gydbwyso'r effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth a dangos bod rheswm digon da dros eithrio pobl draws neu gyfyngu ar eu mynediad i'r gwasanaeth neu ei addasu. Gall fod yn ddefnyddiol i rai darparwyr gwasanaeth gael polisi ar sut y darperir gwasanaethau i bobl draws. Lle mae hyn yn wir, rydym yn argymell eich bod yn datblygu polisi ond nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol. Os oes gennych bolisi dylech fod yn barod i ystyried a yw amgylchiadau penodol yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth y polisi.

Beth mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei ddweud am nodweddion gwarchodedig rhyw ac ailbennu rhywedd

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Beth mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei ddweud am nodweddion gwarchodedig rhyw ac ailbennu rhywedd mae 'rhyw' yn cael ei gydnabod fel deuaidd, sef bod yn wryw neu'n fenyw. At ddiben y Ddeddf, rhyw gyfreithlon person yw ei ryw biolegol fel y'i cofnodwyd ar ei dystysgrif geni. Gall person traws newid ei ryw gyfreithlon trwy gael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Mae person traws nad oes ganddo Dystysgrif Cydnabod Rhywedd yn cadw'r rhyw a gofnodwyd ar ei dystysgrif geni at ddibenion y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu unigolion rhag gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail nodwedd warchodedig. Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys rhyw (bod yn wryw neu'n fenyw) ac ailbennu rhywedd (sef unigolyn sy'n 'bwriadu ymgymryd â phroses neu yn rhan o broses neu wedi bod yn rhan o broses i ailbennu ei ryw'). Nid oes gofyniad i berson traws gael unrhyw fath o oruchwyliaeth neu ymyrraeth feddygol er mwyn cael ei amddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd. Nid oes angen Tystysgrif Cydnabod Rhywedd ar berson i gael ei ddiogelu o dan y nodwedd ailbennu rhywedd.

Mae dau fath o wahaniaethu, gwahaniaethu anuniongyrchol ac uniongyrchol.

Yn gyffredinol mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig. Yn gyffredinol mae yn erbyn y gyfraith i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd nodwedd warchodedig.

Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau lle gellir darparu gwasanaethau naill ai:

- i un rhyw yn unig, neu
- yn wahanol i bob rhyw, neu
- ar wahân i bob rhyw.

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau fodloni nifer o amodau i sefydlu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw yn gyfreithlon. Sefydlir yr amodau hyn o dan eithriadau yn ymwneud â rhyw yn y Ddeddf.

Mae amgylchiadau lle gall darparwr gwasanaeth ar wahân neu un rhyw sydd wedi'i sefydlu'n gyfreithlon wahardd, addasu neu gyfyngu ar fynediad i bobl draws. Caniateir hyn o dan ddarpariaethau sy'n ymwneud ag ailbennu rhywedd yn y Ddeddf.

Pryd y gallwch ddarparu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu i chi ddarparu gwasanaethau rhyw ar wahân (paragraff 26) a gwasanaethau un rhyw (paragraff 27).

Gwasanaethau rhyw ar wahân

Mae gwasanaeth rhyw ar wahân yn un a ddarperir i'r ddau ryw, ond ar wahân neu'n wahanol.

Ni allwch ddarparu gwasanaeth rhyw ar wahân os y byddai gwasanaeth ar y cyd yn llai effeithiol ac os yw darparu'r gwasanaeth ar wahân hwnnw yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Er enghraifft, gallai iechyd a diogelwch eraill fod yn nod cyfreithlon. Mae'n rhaid i chi wedyn ddangos bod eich gweithred yn ffordd gymesur o gyrraedd y nod hwnnw. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi gydbwyso'r effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth o ddarparu gwasanaethau ar wahân.

Er enghraifft, mae elusen yn darparu hosteli digartrefedd ar wahân i ddynion a merched.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn caniatáu i ddarparwr gwasanaeth ddarparu gwasanaethau ar wahân mewn ffordd wahanol ar gyfer pob rhyw. Ni allwch ddarparu gwasanaeth ar wahân yn wahanol oni bai yn gyntaf, y byddai gwasanaeth ar y cyd i bobl o'r ddau ryw yn llai effeithiol, ac yn ail, mae'r graddau y mae angen y gwasanaeth gan un rhyw yn ei gwneud yn anymarferol i ddarparu'r gwasanaeth ac eithrio ar wahân ac yn wahanol ar gyfer pob rhyw. Mae'n rhaid i chi wedyn allu dangos bod y ddarpariaeth gyfyngedig yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

Gwasanaethau un rhyw

Os ydych yn darparu gwasanaeth i un rhyw yn unig (ac nid i'r llall) mae'n rhaid i chi allu bodloni un o'r amodau a ganlyn:

1. Dim ond pobl o'r rhyw hwnnw sydd angen y gwasanaeth.

2. Ni fyddai darparu gwasanaeth ar y cyd i'r ddau ryw yn ddigon effeithiol.

Enghraifft: os na fydd merched o grefydd neu gred benodol yn defnyddio'r pwll nofio lleol ar yr un pryd â dynion, gellid darparu sesiynau nofio i fenywod yn unig yn ogystal â sesiynau cymysg yn bennaf.

3. Mae lefel yr angen am y gwasanaethau yn golygu nad yw'n rhesymol ymarferol darparu gwasanaethau ar wahân ar gyfer pob rhyw.

Enghraifft: gellir sefydlu uned cymorth menywod yn unig ar gyfer menywod sydd wedi profi trais domestig neu drais rhywiol, hyd yn oed os nad oes uned gyfochrog i ddynion yn unig oherwydd y galw annigonol.

4. Darperir y gwasanaeth mewn ysbyty neu fan arall lle mae angen gofal arbennig, goruchwyliaeth neu sylw ar ddefnyddwyr.

Enghraifft: wardiau un rhyw mewn ysbytai a chartrefi nyrsio.

5. Mae'r gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio gan fwy nag un person ar yr un pryd a gallai menyw wrthwynebu'n rhesymol i bresenoldeb dyn (neu i'r gwrthwyneb).

Enghraifft: ystafelloedd newid ar wahân i ddynion a merched.

6. Gallai person wrthwynebu'n rhesymol bod y defnyddiwr gwasanaeth o'r rhyw arall oherwydd bod y gwasanaeth yn cynnwys cyswllt corfforol.

Enghraifft: sesiynau chwaraeon sy'n cynnwys lefel uchel o gyswllt corfforol neu unrhyw wasanaeth sy'n ymwneud ag iechyd neu hylendid personol agos.

Mae'n rhaid i chi hefyd allu dangos bod darparu'r gwasanaeth ar sail un rhyw yn unig yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Unwaith eto, mae cymesuredd yn mynnu eich bod yn cydbwyso'r effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth o ddarparu gwasanaethau i un rhyw yn unig.

Pwyntiau i'w hystyried

Mae'n rhaid i chi allu dangos bod darparu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw yn ddull cymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Mae'n arfer da felly i gofnodi'r rhesymau pam yr ydych wedi penderfynu darparu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol. Er enghraifft, rydych wedi dewis darparu ward ysbyty un rhyw oherwydd bod cleifion wedi dweud wrthych fod ganddynt bryderon cyfreithlon ynghylch aros ar ward gymysg, e.e. preifatrwydd. Os mai dyma'r rheswm dros eich penderfyniad, byddai'n arfer da ategu hyn gyda thystiolaeth, fel arolwg cleifion.

Darpariaethau ailbennu rhywedd yn y Ddeddf Cydraddoldeb (Atodlen 3, paragraff. 28)

Os ydych wedi bodloni'r amodau a nodir uchod ac wedi sefydlu gwasanaeth ar wahân neu un rhyw, dylech ystyried eich dull o ymdrin â defnydd pobl draws o'r gwasanaeth. Wrth ystyried eich ymdriniaeth ac wrth wneud penderfyniadau, mae'n rhaid i chi fodloni'r amodau a nodir o dan y darpariaethau ailbennu rhywedd.

O dan y darpariaethau hyn, mae'n rhaid i'ch ymdriniaeth fod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y gwasanaeth a gall gysylltu â'r rheswm y mae angen y gwasanaeth ar wahân neu un rhyw. Er enghraifft, nod cyfreithlon fyddai preifatrwydd ac urddas eraill. Mae'n rhaid i chi wedyn ddangos bod eich gweithred yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod hwnnw. Mae hyn yn gofyn i chi gydbwyso'r effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth.

Enghraifft: Darperir sesiwn cwnsela grŵp ar gyfer merched sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol. Nid yw'r trefnwyr yn caniatáu i fenywod traws fod yn bresennol gan eu bod yn barnu bod y cleientiaid sy'n mynychu'r sesiwn grŵp yn debygol o gael eu trawmateiddio gan bresenoldeb person sy'n wrywaidd yn fiolegol.

Enghraifft: Mae lloches trais domestig yn cynnig llety brys i oroeswyr benywaidd. Mae adborth gan oroeswyr yn nodi y byddent yn teimlo'n anghyfforddus yn rhannu llety gyda menywod traws am resymau trawma a diogelwch. Mae'r darparwr yn penderfynu gwahardd menywod traws o'r lloches. Mae'n llunio rhestr o ffynonellau cymorth amgen yn yr ardal leol y gellir eu darparu i fenywod traws sy'n mynd at y ganolfan am gymorth.

Enghraifft: Mae canolfan hamdden yn cyflwyno rhai dosbarthiadau ffitrwydd i ferched yn unig. Mae'n penderfynu gwahardd merched traws oherwydd graddau'r cyswllt corfforol sydd ynghlwm wrth ddosbarthiadau o'r fath.

Enghraifft: Mae gan gampfa ystafelloedd newid cymunedol rhyw ar wahân. Mae yna bryder am ddiogelwch ac urddas dynion trawsrywiol yn newid mewn amgylchedd cynllun agored. Mae'r gampfa felly yn penderfynu cyflwyno ystafell newid rhyw-niwtral ychwanegol gydag unedau hunangynhwysol.

Enghraifft: Mae gan gaffi bach gyda lle cyfyngedig a chyfleusterau at ddefnydd y cyhoedd doiledau ar wahân i ddynion a merched y gellir eu cloi, gyda basnau llaw mewn unedau sengl. Er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl gynhwysol, ac i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfleusterau sydd ar gael, mae'r caffi yn penderfynu eu gwneud i gyd yn niwtral o ran rhyw.

Enghraifft: Mae gan ganolfan gymunedol doiledau ar wahân i ddynion a merched. Mae'n cynnal arolwg lle mae rhai defnyddwyr gwasanaeth yn dweud na fyddent yn defnyddio'r ganolfan pe bai'r toiledau ar agor i aelodau o'r rhyw biolegol arall, am resymau preifatrwydd ac urddas neu oherwydd eu cred grefyddol. Mae'n penderfynu cyflwyno toiled ychwanegol niwtral o ran rhywedd. Mae'n gosod arwyddion sy'n dweud wrth bob defnyddiwr y gallant ddefnyddio naill ai'r toiled ar gyfer eu rhyw biolegol neu ddefnyddio'r toiled niwtral o ran rhywedd os ydynt yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwneud hynny.

Os yw'r toiledau a ddarperir gennych ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cael eu defnyddio fel toiledau staff, bydd angen i chi hefyd ystyried Rheoliadau Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ddarparu nifer penodol o doiledau a darparu toiledau a thoiledau ar wahân, a chyfleusterau ymolchi i ddynion a merched mewn rhai amgylchiadau. Mae canllawiau ar gael ar wefan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Darparwyr gwasanaeth ar wahân ac un rhyw: gwneud penderfyniadau

Wrth wneud penderfyniadau, dylech ystyried y canlynol:

1. Trin pob unigolyn ag urddas a pharch

Wrth wneud a chymhwyso penderfyniadau, trin pob unigolyn ag urddas a pharch.

2. Byddwch yn ymwybodol y gall fod angen mynediad at wasanaethau sy'n ymwneud â'u rhyw biolegol ar bobl draws

Enghraifft: Gwrthodir apwyntiad sgrinio'r fron i ddyn traws, a dywedir wrtho y darperir sgrinio ar gyfer merched yn unig. Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon.

Mewn achosion o'r fath, trafodwch gyda'r person traws y ffordd orau i'w alluogi i gael mynediad at y gwasanaeth sy'n bodloni ei anghenion.

3. Datblygu a chymhwyso polisi

Gall fod yn ddefnyddiol i rai darparwyr gwasanaeth gael polisi ar sut y darperir gwasanaethau i bobl draws. Gall fod yn ddefnyddiol i rai darparwyr gwasanaeth gael polisi ar sut y darperir gwasanaethau i bobl draws.

Lle mae hyn yn wir, rydym yn argymell eich bod yn datblygu polisi. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i chi ystyried a yw'r amgylchiadau penodol yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth y polisi. Dylai eich polisi nodi meini prawf clir sy'n caniatau i chi ystyried Dylai eich polisi nodi meini prawf clir ar gyfer sut y byddwch yn ystyried amgylchiadau unigol; amodau penodol.

4. Ystyriwch hawliau ac anghenion pobl draws ochr yn ochr â hawliau ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth eraill.

5. Mae'n rhaid i chi geisio cydbwyso gwahanol ddiddordebau ac anghenion y rhai sy'n defnyddio, neu sy'n dymuno defnyddio, eich gwasanaeth. Dylech ystyried yr effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth ac anghenion pob un ohonynt. Ystyriwch sut y bydd eich gweithredoedd yn effeithio ar bobl draws a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Ystyriwch opsiynau llai cyfyngol lle bo modd.

Enghraifft: Mae gan siop ddillad ardaloedd newid ar wahân i gwsmeriaid gwrywaidd a benywaidd rhoi dillad ymlaen mewn ciwbiclau. Penderfynodd y siop nad oes angen eithrio menywod traws gan y gellir sicrhau preifatrwydd a gwedduster yr holl ddefnyddwyr drwy ddarparu'r ciwbiclau ar wahân hynny.

Mae'n fwyaf tebygol o fod yn gymesur eithrio, addasu neu gyfyngu ar fynediad pobl draws pan fo gan ddarparwr gwasanaeth adnoddau cyfyngedig a lle ffisegol i newid y ffordd y darperir y gwasanaeth neu os yw'n delio â grwpiau ag anghenion penodol; er enghraifft, merched sy'n ddioddefwyr ymosodiad rhywiol gwrywaidd a allai deimlo na allant gymryd rhan ym mhresenoldeb rhywun y maent yn ei ystyried yn wrywaidd.

6. Cofnodi'r sylfaen dystiolaeth a'r rhesymeg dros wneud penderfyniadau.

Dylech ddogfennu rhesymau a thystiolaeth dros eich polisi. Lle gwneir penderfyniad i wyro oddi wrth y polisi cyffredinol mewn achos penodol, yna dylid cofnodi'r rhesymau dros hyn.

Atebwch y cwestiynau canlynol os ydych yn ystyried cyfyngu mynediad at, neu wahardd pobl draws o'ch gwasanaeth

1. **Beth yw'r rhesymau pam y credwch y gallai fod angen i chi addasu neu gyfyngu ar fynediad neu eithrio pobl draws o'ch gwasanaeth?**

Cofiwch fod yn rhaid i chi ddangos bod rheswm da ar sail tystiolaeth.

Er enghraifft, urddas, preifatrwydd, atal trawma neu sicrhau iechyd a diogelwch eraill.

2. **A fyddai addasu neu gyfyngu ar fynediad neu wahardd person traws o'ch gwasanaeth mewn gwirionedd yn eich helpu i gyflawni hyn?**

Os na fyddai, efallai y byddai'n anghyfreithlon gwahardd person traws, neu addasu neu gyfyngu ar ei mynediad i'ch gwasanaeth.

3. **Bydd angen i chi gydbwyso buddiannau pobl draws gyda defnyddwyr gwasanaeth eraill. A yw'r rheswm dros gyfyngu mynediad at neu wahardd person traws o'ch gwasanaeth yn gorbwyso unrhyw effeithiau gwahaniaethol o'r driniaeth? (h.y. mae'r effaith ar bobl traws o waharddiad yn cael ei gorbwyso gan yr effaith ar ddefnyddwyr eraill pe baent yn cael eu cynnwys)**

Os nad yw, gallai fod yn anghyfreithlon gwahardd person traws o'r gwasanaeth un rhyw o'r rhywedd y mae'n ei gyflwyno neu gyfyngu ar ei fynediad i'r gwasanaeth. Os ydyw, mae'n debygol o fod yn gyfreithlon i wahardd person traws o'r gwasanaeth un rhyw o'r rhyw y mae'n ei gyflwyno neu addasu neu gyfyngu ar ei fynediad i'r gwasanaeth. Dylech bob amser gydbwyso ac ystyried anghenion gwahanol grwpiau.

Gwasanaethau ar wahân neu un rhyw: camau ymarferol y gallwch eu cymryd

- Sicrhewch bod staff yn ymwybodol efallai na fydd person traws yn dymuno darparu gwybodaeth bersonol sensitif i chi a dyna yw eu hawl.

Nid oes angen gwybodaeth bersonol arnoch fel Tystysgrif Cydnabod Rhywedd i wneud penderfyniad. Does dim ond angen i chi benderfynu a yw eich gweithred yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon. Mae risg o weithredu'n anghyfreithlon p'un a oes gan y person Dystysgrif Cydnabod Rhywedd ai peidio. Felly nid yw'r eithriadau a amlinellir yn y canllaw hwn yn dibynnu a oes gan unigolyn Dystysgrif Cydnabod Rhywedd ai peidio.

Nid oes angen i berson feddu ar Dystysgrif Cydnabod Rhywedd i gael ei warchod o dan nodwedd ailbennu rhywedd. Ni ddylech felly ofyn am un wrth benderfynu a ydych am drin rhywun yn wahanol neu eithrio pobl draws o'ch gwasanaeth. Gallai gofyn am un hefyd fod yn groes i hawl rhywun i breifatrwydd.

Os yw person yn datgelu gwybodaeth bersonol, fel ei Dystysgrif Cydnabod Rhywedd neu gais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd, mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o'i hawliau preifatrwydd data. Mewn rhai amgylchiadau mae'n drosedd rhannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â Thystysgrif Cydnabod Rhywedd gan berson heb ei ganiatâd.

Ni ddylech ychwaith wneud rhagdybiaethau ynghylch a yw person yn draws yn seiliedig ar stereoteipiau rhywedd, megis y rhai sy'n seiliedig ar edrychiad neu ddillad.

- Nodi atebion posibl sy'n lleihau effeithiau gwahaniaethol.

Wrth ragweld senarios posibl a datblygu datrysiadau, gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn cydbwyso anghenion pobl draws a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Argymhellir eich bod yn trafod gyda defnyddwyr gwasanaethau traws y ffordd orau i'w galluogi i gael mynediad at y gwasanaeth sydd ei angen arnynt.

- Defnyddiwch yr wybodaeth rydych wedi'i chasglu ac ystyriwch y ffordd orau o fodloni anghenion defnyddwyr gwasanaethau traws yn y dyfodol.

Bydd yn ddefnyddiol defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu polisi ar gyfer darparu eich gwasanaeth i bobl draws. Bydd yn ddefnyddiol defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu polisi ar gyfer darparu eich gwasanaeth i bobl draws.

Mae'n bosibl y bydd datblygu polisïau hefyd yn gofyn am drafodaethau cyfrinachol gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd datblygu polisïau hefyd yn gofyn am drafodaethau cyfrinachol gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Dylid hyfforddi staff ar sut i gymhwyso'r polisi yn gyson. Dylid hyfforddi staff ar sut i gymhwyso'r polisi yn gyson.

Gallai eich polisi nodi sut y byddwch yn ymdrin â cheisiadau gan bobl drawsrywiol i ddefnyddio'r gwasanaeth a dylai fod yn hygyrch i bawb fel bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn gwybod beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd angen i chi ystyried a yw'r amgylchiadau penodol yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth y polisi. Dylai eich polisi nodi meini prawf clir sy'n caniatáu ichi ystyried amgylchiadau penodol.

- Cymerwch gamau i leihau'r effaith ar bobl traws os benderfynwch mai gwaharddiad yw'r unig opsiwn.

Er enghraifft, crëwch restr o wasanaethau arbenigol y gallech cyfeirio pobl draws atynt a nodwch y cysylltiadau priodol ar eu cyfer.

- Yn dibynnu ar eich gwasanaeth, gall fod yn briodol mewn amgylchiadau arbennig i rannu'ch penderfyniadau. Rydym yn argymell eich bod yn esbonio:

    - Pam eich bod wedi gwneud eich penderfyniad, gan gynnwys esboniad o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i wneud eich penderfyniad
    - Sut yr ydych wedi ystyried yr effaith ar bob defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys pobl traws.

- Yn dibynnu ar eich gwasanaeth, lle rydych wedi penderfynu y byddai eithrio, addasu neu gyfyngu mynediad at wasanaeth i bobl draws yn fodd cymesur o gyflawni nod cyfreithlon, fe all fod yn addas i esbonio i bobl draws unigol sydd am gael mynediad at y wasanaeth:
    - Pa opsiynau amgen yr ydych wedi eu hystyried ar gyfer eu cynnwys, megis addasu'r gwasanaeth a pham nad yw wedi ei gymhwyso yn ei hamgylchiadau unigol
    - Os nad yw cynhwysiant llawn yn cael ei ystyried yn bosibl, eglurwch i'r person yr opsiynau ar gyfer ei gynnwys, ond heb roi unrhyw bwysau ar unrhyw un i dderbyn.

    - Lle mae'n bosib, rhowch restr o wasanaethau arbenigol at ei gilydd lle y gall pobl ddod o hyd iddynt, neu ddarparwch restr eich hun os oes gennych un.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o'n gwefan.

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu ein cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr.

EASS

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

Ffôn	0808 800 0082
Ffôn testun	0808 800 0084
Oriau agor	09:00 i 19:00 (Llun i Gwener)
	10:00 i 14:00 (Sadwrn)
Post	FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2022 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Ebrill 2022

ISBN: 978-1-84206-857-1